Adroddiad i'r	Cyngor Llawn
Dyddiad y cyfarfod	24 Mai 2022
Aelod / Swyddog Arweiniol	Gary Williams, Swyddog Monitro
Awdur yr adroddiad	Lisa Jones, Dirprwy Swyddog Monitro
Teitl	Penodi Aelodau Lleyg i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Ceisio cymeradwyaeth y Cyngor i benodi 3 Aelod Lleyg Annibynnol

2. Beth yw'r rheswm dros wneud y penderfyniad hwn?

Mae deddfwriaeth llywodraethu ar gyfer cyfansoddiad Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio y Cyngor yn ei gwneud yn orfodol i'r Cyngor sicrhau bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnwys un rhan o dair o aelodau sy'n annibynnol o'r Cyngor.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Argymhelliad y Panel Penodiadau Arbennig ynghylch y tri unigolyn a ystyriant yn fwyaf priodol i eistedd fel Aelodau Lleyg ar y Pwyllgor yw:-

1) Ail-benodi Paul Whitham am ail gyfnod swydd
2) Penodi David Stewart am gyfnod swydd
3) Penodi Nigel Rudd am gyfnod swydd

3.2 Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les fel rhan o'r penderfyniad hwn.

4. Manylion yr adroddiad

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 roedd angen i'r Cyngor benodi o leiaf un aelod lleyg Annibynnol i'w Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Bu i'r swydd wag hon a hysbysebwyd yn allanol arwain at benodi Mr Paul Whitham. Yn wahanol i benodiadau Aelod Lleyg Pwyllgor Safonau'r Cyngor, nid oes gan Aelodau Lleyg y Pwyllgor Llywodraethu ac

Archwilio uchafswm cyfnod swydd, ond gellir eu hail-benodi gan y Cyngor pe dymunant barhau am gyfnod pellach. Mae Mr Witham wedi cytuno i barhau am gyfod pellach, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor.

Bu i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2022 ddiwygio Mesur 2011 i nodi'r angen i un rhan o dair o aelodau fod yn aelodau lleyg annibynnol, mae ymgyrch recriwtio a phroses gyfweld bellach wedi eu cwblhau er mwyn penodi 2 aelod lleyg ychwanegol, a hefyd ail-benodi Mr Whitham gan ddarparu cyfanswm o 3 aelod lleyg annibynnol i'r Pwyllgor.

Bu i'r Cyngor Llawn ddirprwyo'r broses ddethol i Banel Penodiadau Arbennig yn cynnwys Aelodau o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ar 22 Mai 2012. Bu i'r Cynghorydd Barry Mellor, y Cynghorydd Rhys Thomas, a'r Cynghorydd Martyn Holland sydd bellach wedi ymddeol, gynnal y cyfweliadau gyda chefnogaeth gan Brif Archwilydd Dros Dro a Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol y Cyngor. Yn dilyn y cyfweliadau, gofynnwyd am eirdaon ac fe'u rhannwyd gyda'r Panel Penodiadau Arbennig. Mae'r Panel bellach yn gwneud yr argymhelliad ffurfiol yn Adran 3 uchod i'r Cyngor Llawn.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Bydd Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sydd â chyfansoddiad cyfreithiol ac yn gwbl weithredol yn darparu'r Cyngor â'r trosolwg a'r adolygiad angenrheidiol o ran llywodraethu corfforaethol, rheolaeth ariannol a risg effeithiol a chanfyddiadau archwilio mewnol/allanol. Mae Cyngor a lywodraethir yn effeithiol yn cefnogi cyflawniad blaenoriaethau corfforaethol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae'r Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn gosod y gyfradd ddyddiol ar gyfer aelodau annibynnol. Mae'n ofyniad cyfreithiol bod y gyfradd hon yn cael ei chynnig i'r aelodau annibynnol. Mae'r gyfradd ddyddiol ar gyfer 2022-23 fel a ganlyn:

Os yw aelod yn gweithio am lai na 4 awr y dydd y gyfradd yw £105 i £134, yn dibynnu ar eu swydd.

Os yw aelod yn gweithio am fwy na 4 awr y dydd y gyfradd yw £210 i £268, yn dibynnu ar eu swydd.

Gan fod angen i Gadeirydd y Pwyllgor bellach fod yn Aelod Lleyg, yn hytrach nag Aelod Etholedig, ni fydd y Cyngor yn talu'r cyflog uwch (£8,793 y flwyddyn) a gynigir i Gadeirydd

Pwyllgor statudol. Felly amcangyfrifir na fydd 3 Aelod Lleyg, yn hytrach nag 1 Aelod Lleyg, a dileu cyflog uwch y Cadeirydd yn golygu unrhyw wariant ychwanegol heblaw'r hyn a ddyrannir yn bresennol a gallai o bosib olygu arbediad. Fodd bynnag dyma'r tro cyntaf i'r Cyngor gael Aelod Lleyg yn Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb/ Asesiad o Effaith ar Les?

Nid oes angen asesiad o'r effaith ar les.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Cefnogwyd bob awdurdod lleol yng Nghymru gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o ran cyhoeddi'r cyfleoedd a'u hysbysebu ar wefan y Cyngor. Mae'r Cyngor Llawn a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi cael gwybodaeth yn ystod y broses ail-benodi.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae'r gwasanaeth yn hyderus y gellir cynnal yr effaith ariannol net o fewn y cyllidebau presennol. Bydd y sefyllfa'n cael ei monitro'n agos yn ystod 2022/23.

10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Nis oes unrhyw risgiau a nodwyd wrth symud ymlaen gyda'r penodiadau.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad?

a82 Mesur Llywodraeth Leol Cymru 2011 fel y'i diwygiwyd gan a.116 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021